***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 6

## Buddion marwolaeth

### PENNOD 5

### Talu buddion marwolaeth

**Talu pensiynau o dan y Rhan hon**

**109.**—(1) Mae pensiwn partner sy'n goroesi neu bensiwn plentyn cymwys yn daladwy o'r diwrnod ar ôl dyddiad marwolaeth yr aelod.

(2) Rhaid talu pensiwn plentyn cymwys sy'n daladwy mewn cysylltiad â phlentyn cymwys o dan 18 mlwydd oed i ba bynnag berson arall a benderfynir gan y rheolwr cynllun, a rhaid i'r rheolwr cynllun ei gwneud yn ofynnol bod y person hwnnw'n ei ddefnyddio er budd y plentyn cymwys yn unol â chyfarwyddiadau'r rheolwr cynllun.

**Pensiynau partner sy'n goroesi a phensiynau plentyn cymwys: atal dros dro ac adennill**

**110.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys—

(a) os, ar farwolaeth aelod, dyfarnwyd a thalwyd pensiwn o dan y Rhan hon; a

(b) os, yn ddiweddarach, mae'n ymddangos i'r rheolwr cynllun fod yr aelod neu'r person y talwyd y pensiwn iddo wedi gwneud datganiad anwir neu wedi celu yn fwriadol ffaith berthnasol mewn cysylltiad â'r dyfarniad.

(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys, caiff y rheolwr cynllun—

(a) peidio â thalu'r pensiwn; a

(b) adennill unrhyw daliad a wnaed o dan y dyfarniad.

(3) Nid yw paragraff (2) yn effeithio ar hawl y rheolwr cynllun i adennill taliad neu or-daliad o dan unrhyw ddarpariaeth arall pan fo'r rheolwr cynllun o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny.

**Dyfarniadau dros dro o bensiynau plentyn cymwys: addasiadau diweddarach**

**111.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os yn dilyn marwolaeth aelod actif, aelod gohiriedig neu aelod-bensiynwr—

(a) telir pensiwn mewn cysylltiad ag un neu ragor o bersonau o dan y Rhan hon ar y sail eu bod yn blant cymwys ar ddyddiad marwolaeth yr aelod, ac nad oedd unrhyw blant cymwys eraill ar y pryd; a

(b) yn ddiweddarach, mae'n ymddangos—

(i) nad oedd person, y talwyd pensiwn o'r fath mewn cysylltiad ag ef, yn blentyn cymwys ar ddyddiad y farwolaeth,

(ii) bod person ychwanegol yn blentyn cymwys, neu

(iii) bod plentyn a anwyd ar ôl marwolaeth yr aelod yn blentyn cymwys.

(2) Caiff y rheolwr cynllun wneud pa bynnag addasiadau sy'n ofynnol yn wyneb y ffeithiau fel y maent yn ymddangos yn ddiweddarach, yn swm y pensiynau sy'n daladwy mewn cysylltiad â'r plant dan sylw, a chaiff yr addasiadau hynny fod yn gymwys yn ôl-weithredol.

(3) Nid yw paragraff (2) yn effeithio ar hawl y rheolwr cynllun i adennill taliad neu or-daliad mewn unrhyw achos pan fo'r rheolwr cynllun o'r farn y byddai'n briodol gwneud hynny.

**Addasu dyfarniadau plentyn cymwys o ganlyniad i adfer buddion pensiwn**

**112.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo person (P) a fyddai'n gymwys i gael buddion fel partner sy'n goroesi neu fel plentyn cymwys yn dilyn marwolaeth aelod actif, aelod gohiriedig neu aelod-bensiynwr, wedi ei gollfarnu am lofruddiaeth neu ddynladdiad yr aelod hwnnw, a'r gollfarn honno wedi ei diddymu yn ddiweddarach, yn dilyn apêl.

(2) Os yw P wedyn yn gymwys i gael pensiwn partner sy'n goroesi, bydd unrhyw gynnydd mewn pensiwn plentyn cymwys o dan reoliad 99 (cynnydd mewn pensiwn plentyn cymwys pan nad oes partner sy'n goroesi) yn peidio â bod yn daladwy o'r dyddiad y diddymir y gollfarn.

(3) Os yw P wedyn yn gymwys i gael pensiwn plentyn cymwys, ac os oes mwy nag un person yn cael pensiwn plentyn cymwys ar y diwrnod cyn y diddymir y gollfarn, bydd swm pob pensiwn plentyn cymwys yn cael ei ostwng, o'r dyddiad y diddymir y gollfarn, i'r swm o bensiwn plentyn cymwys a benderfynir yn unol â'r gyfran benodedig a fyddai wedi bod yn gymwys i'r nifer hwnnw o blant cymwys.

**Addasu buddion i gydymffurfio â DC 2004 pan fydd farw aelodau dros 75 mlwydd oed**

**113.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys os—

(a) bydd farw aelod ar ôl cyrraedd 75 mlwydd oed; a

(b) ac eithrio o dan y rheoliad hwn, na fyddai unrhyw ran o bensiwn, y caiff unrhyw berson yr hawl i'w gael o dan y Rhan hon yn dilyn y farwolaeth, yn gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion at ddibenion adran 167 o DC 2004 (y rheolau buddion marwolaeth pensiwn).

(2) Caniateir addasu'r budd sy'n daladwy i'r person ym mha bynnag fodd a benderfynir gan y rheolwr cynllun, fel y bo'n gymwys fel pensiwn cynllun dibynyddion at ddibenion adran 167 o DC 2004.